



Byddwch yn **barod** wrth i'r DU adael yr UE

Os ydych yn prynu unrhyw eitemau ar gyfer eich busnes o wledydd yn yr UE, neu'n gwerthu cynnyrch i gwsmeriaid yng ngwledydd yr UE, hyd yn oed os gwnewch hynny unwaith y flwyddyn yn unig, bydd trefniadau newydd ar gyfer mewnforio ac allforio yn effeithio arnoch ar ôl Brexit.

Dechreuwch drwy ddilyn y camau isod i baratoi'ch busnes ar gyfer Brexit. Byddwn yn rhoi gwybod i chi am y camau nesaf y bydd angen i chi eu cymryd cyn i'r DU adael yr UE.

Ar eich marciau

Defnyddiwch y rhestr wirio hon i ddeall yr hyn y mae'n rhaid i chi ei wneud

Bydd angen rhif EORI yn y DU arnoch sy'n dechrau gyda GB. Ni fyddwch yn gallu symud nwyddau i mewn i'r DU ac oddi yno heb un, ac mae'n cymryd llai na deng munud i wneud cais

Bydd angen ffurflenni tollau arnoch. Os ydych am symud **eitemau i mewn** i'r DU neu **symud eitemau oddi yno**, bydd angen sgiliau a meddalwedd arbenigol arnoch. Ewch ati i benderfynu a allwch wneud hyn eich hun, neu gofynnwch i arbenigwr tollau wneud hyn ar eich rhan

Ewch i gov.uk/Brexit i ddod o hyd i arweiniad ynghylch Brexit a **help ar gyfer mewnforio** a **help ar gyfer allforio**

Barod

Os ydych yn prynu eitemau o wledydd yr UE er mwyn dod â nhw i'r DU:

Gwnewch gais am weithdrefnau mewnforio symlach a elwir yn Weithdrefnau Symlach Dros Dro er mwyn cael amser ychwanegol i gyflwyno'ch dogfennau tollau

Gwiriwch y doll y bydd yn rhaid i chi ei thalu ar eitemau rydych yn dod â nhw i'r DU

Gwnewch gais am gyfrif ar-lein i'w gwneud yn haws i dalu trethi

Ac os ydych yn gwerthu cynnyrch i'r UE, bydd angen i chi wneud y canlynol:

Gwirio gyda'r bobl neu'r cwmni sy'n symud eich cynnyrch – er enghraifft, eich gwasanaeth postio neu'ch cludwr – i gael gwybod a oes angen rhagor o wybodaeth arnynt oddi wrthy'ch er mwyn parhau i wneud hyn

Gwirio bod y bobl rydych yn gwerthu cynnyrch iddynt yn barod i ddod â'ch nwyddau i mewn i'w gwlad, eu bod yn dilyn prosesau tollau'r wlad honno, a'u bod yn barod i anfon y gwaith papur perthnasol atoch (er enghraifft, y datganiad mewnforio)

Ewch

Rydych bellach wedi cymryd y camau cyntaf i baratoi'ch busnes ar gyfer Brexit

Cofrestrwch i gael y diweddaraf oddi wrth CThEM am Brexit er mwyn i ni allu rhoi gwybod i chi am y camau nesaf y bydd angen i chi eu cymryd

Mae rhagor o wybodaeth ar GOV.UK **am Ogledd Iwerddon ac Iwerddon**